# Gwers 20 – Daniel yn ffau'r llewod

## Nodiadau Cefndir i'r Athro

### Daniel 6:1–25

Roedd hanner cyntaf yr wythfed ganrif CC yn gyfnod o lwyddiant yn hanes Israel. Fodd bynnag, roedd y cyfoeth yn nwylo canran fechan o'r boblogaeth – masnachwyr a thirfeddianwyr – a hynny ar draul y werin bobl. Enynnodd yr annhegwch hwn gondemniad y proffwydi Amos a Hosea. Er eu bod yn ymddangos yn grefyddol, yn aberthu'n gyson, nid dyna oedd dymuniad Duw, ond cyfiawnder a theyrngarwch i'r cyfamod. Cyhoeddent yn barhaus fod y genedl yn wynebu trychineb gwaeth nag a ddaeth i'w rhan hyd yn hyn, ac yn wir yn 721 CC, gwireddwyd geiriau'r proffwydi pan oresgynnwyd Samaria yn dilyn tair blynedd o warchae. Caethgludwyd nifer o'r bobl a mewnfudwyd dieithriaid i gymryd eu lle.

Yn y de, tra'r oedd Heseceia yn teyrnasu, dychwelodd y genedl i addoli'r un Duw, a mwynhawyd heddwch a sicrwydd. Gwnaeth ei olynydd, Manasse, fodd bynnag, 'yr hyn oedd ddrwg yng ngolwg yr Arglwydd.... ail adeiladodd yr uchelfeydd a ddinistriodd ei dad Heseceia' (2 Bren. 21:2). Llathen o'r un brethyn oedd ei fab Amon, ond ceisiodd ei olynydd ef, Joseia, adfer y sefyllfa pan ddarganfyddodd Llyfr y Gyfraith yn y Deml. Dilëwyd addoliad paganaidd a dechreuwyd cadw'r Pasg. Lladdwyd Joseia mewn brwydr ac fe'i dilynwyd gan ei fab Jehoahas, a dychwelwyd i'r hen ddyddiau drwg. Rhybuddiodd Jeremeia ac Eseciel, y bobl, pe na fyddent yn newid eu ffordd byddent yn cael eu dinistrio. Syrthiodd eu geiriau ar glustiau byddar. Cododd Nebuchadnesar, brenin Babilon, warchae ar Jerwsalem a'i goresgyn yn 597 CC. Gorchmynnodd y brenin ddewis 'o blith teulu brenhinol Israel a'r penaethiaid, rai bechgyn golygus heb unrhyw nam corfforol arnynt, yn hyddysg ymhob gwyddor, yn ddeallus a gwybodus' (Dan. 1:3). Y bwriad oedd eu 'trwytho yn llên ac iaith y Caldeaid' (Dan. 1:4). Yn eu mysg yr oedd, Daniel, Hananeia, Misael ac Asareia; rhoddwyd enwau newydd iddynt, Beltesassar, Sadrach, Mesach ac Abednego, ac yn dilyn yr hyfforddiant, daethant yn weision i'r brenin, gyda swyddi amlwg yn y llywodraeth.

Gwrthododd Daniel a'i dri chyfaill dderbyn crefydd y Caldeaid, ac er i Sadrach, Mesach ac Abednego gael eu taflu i ffwrn dân, oherwydd iddynt wrthod plygu i ddelw aur, gwaredodd Duw hwy.

Pan oresgynnwyd Babilon gan Darius y Mediad ac oherwydd bod Daniel yn rhagori ar y llywodraethwyr eraill, ac am fod ganddo ddawn arbennig, roedd yn fwriad gan y brenin ei osod dros yr holl deyrnas. Pan glywodd Daniel fod y brenin, ar gais swyddogion y deyrnas, wedi arwyddo dogfen yn gwahardd 'plygu i unrhyw dduw neu ddyn, ar wahân i ti' (Dan. 6:7), aeth i'w dŷ. Y gosb am anufuddhau oedd taflu'r troseddwr i ffau'r llewod. Roedd ffenestri ei lofft yn agor i gyfeiriad Jerwsalem ac arferai Daniel benlinio deirgwaith y dydd yn diolch i Dduw. Er iddo dreulio 60 mlynedd yn y wlad ni adawodd Daniel i baganiaeth Babilon ei ddifwyno.

Atgoffodd swyddogion y brenin am y ddogfen a arwyddodd a bod Daniel wedi bod yn anufudd. Er ei fod yn anfodlon ni allai'r brenin wneud dim ond caniatáu i Daniel gael ei gosbi. Pan ddychwelodd Darius at y ffau drannoeth llawenychodd o weld fod Daniel yn ddianaf, 'am iddo ymddiried yn ei Dduw' (Dan. 6:23).



Roedd Daniel yn caru Duw mwy na neb arall. Cafodd ei daflu i ffau'r llewod am ei fod yn gwrthod addoli'r brenin.

Beth am dorri cylchoedd o bapur melyn a'u ludo o gwmpas Daniel? Ar ôl rhoi mwng a wyneb i bob un bydd y ffau yn llawn o lewod – ond cofia bod Duw wedi cau eu cegau a daeth Daniel allan o'r ffau yn ddiogel.

Diolch Dduw am gau cegau'r llewod a chadw Daniel yn ddiogel. Rwyt ti'n gallu gwneud popeth – rwyt ti'n anhygoel. Amen

# Gwers 20 – Daniel yn ffau'r llewod




## **Daniel** | Beibl Newydd y Plant tud. 104

*(Daniel 6)*

**Gwers 20**
Daniel yn ffau'r llewod

**BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN /DROS 7 oed**
Daniel yn ffau'r llewod tud 86

**BEIBL LLIW STORI DUW**
Daniel a'r llewod tud 194

**BEIBL BACH STORI DUW**
Daniel a'r noson hunllefus tud 152

**BEIBL NEWYDD Y STORIWR**
Daniel a'r Llewod tud 76

**BEIBL LLIW Y PLANT**
Daniel yn Ffau'r Llewod tud 166

**BEIBL NEWYDD Y PLANT**

**BEIBL BACH I BLANT**
Llewod Llwglyd tud 272

**Y BEIBL I BLANT MEWN 365 STORÏAU**
Parhau i weddio (212) tud 243
Y bore canlynol (213) tud 244

**BEIBL LLIW Y TEULU**
Daniel a'r llewod(205) tud 111

### Amser Chwarae

*Bydd angen copi o 'Atodiad 1' (ar gael i lawrlwytho o www.ysgolsul.com) ar gerdyn, siswrn a dis i bob plentyn.*

Gofynnwch i'r plant liwio'r llun cyn ei dorri'n ddarnau ar hyd y llinellau dotiog. Wrth i chi weithio, esboniwch fod ein stori wir o'r Beibl heddiw am lewod. Y nod yw i bob plentyn ail ffurfio'r llun. Bydd y plant yn cymryd tro i "ennill" un darn ar y tro wrth daflu'r dis a gosod y darn gyda'r smotiau'n cyfateb. Os yw'r plentyn yn taflu rhif sydd ganddo'n barod, gall gymryd tro arall neu fethu tro, yn ôl eich dymuniad. Gallwch ludo'r darnau ar ddarn o bapur neu eu rhoi mewn amlen i'r plentyn fynd adref gyda nhw.

### Amser Stori

Adroddwch y stori yn eich geiriau eich hun neu darllenwch yr hanes o lyfr stori gan gofio dangos y lluniau i'r plant. Wedyn, gofynnwch i'r plant orwedd ar y llawr fel llewod sy'n cysgu. Dywedwch wrthynt am wrando yn ofalus am y geiriau "siarad gyda Duw." Bob tro y clywant y geiriau, dylent ddeffro a rhuo, yn debyg i lewod. Eto, byddai'n syniad cael ymarfer yn gyntaf a chael arwydd i ddangos pan ddylid bod yn dawel a gorwedd ar y llawr unwaith eto tra eich bod yn parhau gyda'r stori.

Esboniwch fod Daniel wedi penderfynu gwrando ar Dduw a dewis gwneud yr hyn sy'n plesio Duw. Gwelwn hefyd fod Duw'n gofalu amdano mewn ffordd ryfeddol.

### Cân "Ble mae Daniel?"

"Ble mae Daniel? Ble mae Daniel?

Yn ffau'r llewod, yn ffau'r llewod.

Am beth? Am beth?

Am iddo beidio addoli'r ddelw."

Esboniwch wrth y plant fod y gair "addoli" yn golygu

"gweddïo."

## Gweddi ' Pan rwy'n ofnus...'

Gofynnwch i'r plant i enwi un peth sy'n codi ofn arnynt. Ydyn nhw'n credu bod ofn ar Daniel pan gafodd ei daflu i ffau'r llewod? Pwy oedd yn edrych ar ôl Daniel? Pwy fydd yn gofalu amdanom ni pan fyddwn yn ofnus?

Gweddïwch dros bob un o'r plant yn eu tro, gan ofyn i Dduw ei helpu i beidio â bod ofn y peth a enwyd ganddynt.

## Crefft

Llyfr Crefft t. 120–122

## Adnoddau Ychwanegol

**Crefft**
Llyfr Crefftau Stori Duw i blant dan 5 oed t. 120–122

**Gwerslyrau Golau ar y Gair**
Daniel – yn ffau'r llewod

**Taflenni gwefan amserbeibl.org**
Cyfres C – Daniel

**Cyfres DVD Stori Duw**
Stori 27; Daniel yn ffau'r llewod

**Cwis a Chwilair**
Llyfr Cwis Cynta i Ateb, tud 312

**Cyfres PowerPoints Beibl Bach i Blant**
Cyflwyniad 31: Llewod Llwglyd

**Llyfrau Stori**
Pam fod ofn ar Daniel?
Cyfres Fi Hefyd: Yn ffau'r llewod
Masgiau'r Beibl – drama Daniel
Hwyl Jigso: Daniel a'r Llewod
Llyfr Stensil Anifeiliaid y Beibl: Daniel a'r Llewod




